GfK NOP Social Research

Adroddiad Ymchwil:

Pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Profi'r Cwestiwn Refferendwm

Ymchwil Cymdeithasol GfK NOP, Awst 2010

Ysgrifennwyd gan:

Michael Thompson (Cyfarwyddwr, Ymchwil Cymdeithasol GfK NOP)

Sioned Lewis (Uwch Ymgynghorydd, Arad Consulting)

Crynodeb Gweithredol

1.1 Cyflwyniad

Erbyn diwedd mis Mawrth 2011, bydd refferendwm yn cael ei gynnal yng Nghymru ar p'un ai i roi pwerau deddfu llawn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gofynnodd y Comisiwn Etholiadol i GfK NOP i brofi dealltwriaeth pleidleiswyr o'r cwestiwn drafft.[1] Nod yr ymchwil oedd:

- Nodi unrhyw elfennau o gwestiwn y refferendwm sy'n peri problemau i ddefnyddwyr yng nghyd-destun canllawiau asesu cwestiynau'r Comisiwn
- Archwilio'r rhesymau dros y problemau hyn
- Archwilio'r dulliau posibl o ddatrys y problemau hyn
- Archwilio ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwerau'r Cynulliad ac archwilio dealltwriaeth y cyhoedd o sut y bydd canlyniadau'r refferendwm yn effeithio ar hyn

Defnyddiwyd dull ansoddol oedd yn cynnwys cyfanswm o wyth o grwpiau ffocws a 20 o gyfweliadau trylwyr a gynhaliwyd ledled Cymru, i brofi'r cwestiwn refferendwm. Profwyd y fersiynau iaith Gymraeg a Saesneg o'r cwestiwn. Cynhaliwyd yr holl waith ymchwil rhwng 7fed a 15fed Gorffennaf 2010. Noder os gwelwch yn dda, fod yr holl ddarganfyddiadau'n gymwys i'r fersiynau iaith Gymraeg a Saesneg o'r cwestiwn, oni bai y nodir fel arall.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o ymchwil a wnaed gan GfK NOP; dydy'r rhain ddim yn adlewyrchiad o farn y Comisiwn Etholiadol.

1.2 Ymwybyddiaeth o'r Cefndir

Doedd gan lawer o'r ymatebwyr ddim llawer o wybodaeth o'r materion cefndirol ac o'r derminoleg angenrheidiol sydd eu hangen i ddeall y cwestiwn refferendwm yn llawn. Doedd llawer ddim yn gyfarwydd â'r syniad o ddatganoli, a doedd gan lawer o'r rhai hynny a gymrodd ran ddim llawer o ddealltwriaeth o bwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ac eithrio tipyn o fentrau proffil uchel, fel presgripsiynau am ddim, gostyngiad mewn ffioedd tiwtora a nofio am ddim, doedd y rhan fwyaf ddim yn siŵr ym mha feysydd polisi oedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bŵer deddfwriaethol drostynt. Yn fwyfwy, doedd llawer ddim yn ymwybodol o fecanweithiau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a doeddynt ddim yn gwybod y gallai'r Cynulliad ennill rhagor o bwerau i ddeddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli drwy gytundeb Senedd y Deyrnas Unedig[2].

Dim ond nifer fechan o bobl oedd yn ymwybodol fod refferendwm ar bwerau'r Cynulliad i fod i gael ei gynnal yn 2011. Roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i fod yn hŷn (35+), wedi pleidleisio o'r blaen yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'n fwy tebyg o ddilyn materion gwleidyddol Cymreig yn y newyddion. Roedd gan bobl oedd yn siarad Cymraeg lefel tipyn uwch o ymwybyddiaeth am y refferendwm sydd i ddod, o'i gymharu â phobl nad oedd yn siarad Cymraeg.

---

1 Gellir gweld y cwestiwn llawn sy'n cael ei ddefnyddio yn yr ymchwil ar dudalen 10.

2 Pobl ifanc rhwng 17-24 mlwydd oed a ddangosodd y lefelau isaf o ymwybyddiaeth, a'r bobl hynny oedd wedi pleidleisio o'r blaen yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ddangosodd y lefelau uchaf o ymwybyddiaeth.

Un canlyniad o ddiffyg ymwybyddiaeth y rhai hynny a ymatebodd o ddatganoli, o bwerau'r Cynulliad ac o bwnc y refferendwm sydd i ddod, oedd y cymeront ran yn yr ymchwil gyda llawer o gamsyniadau ynghylch yr hyn y byddai'r cwestiwn yn ei ofyn iddynt. Er enghraifft, tybiodd rhai mai ynghylch annibyniaeth i Gymru oedd y cwestiwn neu ynghylch cynnydd ym mhwerau codi treth y Cynulliad, ac fe atebon nhw ef yn unol â hynny. Er y gellir datrys y camsyniadau hyn drwy ymgyrchu a drwy wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno i etholwyr cyn mis Mawrth 2011, roedd yn glir nad oedd y cwestiwn, yn ei ffurf gyfredol, yn heriol neu'n datrys y camsyniadau hyn yn ddigonol.

1.3 Dehongli'r Cwestiwn

Ar ôl darllen y cwestiwn refferendwm, roedd y rhan helaeth yn gallu gweld ei fod yn gofyn iddynt i benderfynu p'un ai y dylid cynyddu pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu beidio. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn cael trafferth yn canfod union natur y cynnydd yn y pwerau deddfu sy'n cael eu cynnig. Darparwyd ystod o ddehongliadau, yn cynnwys y canlynol:

- Annibyniaeth lawn i Gymru
- Pwerau codi treth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cyflwyno meysydd newydd sydd wedi'u datganoli
- Cael gwared â'r angen i gael cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer deddfau a wnaethpwyd mewn meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli.
- Cynnydd ym mhwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn ardaloedd difreintiedig/sy'n datblygu yng Nghymru.

Roedd y rhai hynny oedd yn credu fod y cwestiwn yn gofyn am annibyniaeth i Gymru neu am bwerau codi treth i'r Cynulliad yn tueddu i ateb y cwestiwn gyda'r dybiaeth hyn eisoes mewn golwg, ac ni chafodd eu camsyniadau eu herio gan y cwestiwn. Roedd y rhai hynny oedd yn credu mai ystyr y cwestiwn oedd cyflwyno meysydd newydd sydd wedi'u datganoli, fel arfer yn ddryslyd ynghylch y defnydd o'r geiriau *'meysydd sydd wedi'u datganoli'* yn y cwestiwn, ac wedi camddehongli'r ystyr wrth ddarllen y cwestiwn. Roedd y rhai hynny oedd yn meddwl fod y cwestiwn yn gofyn am gynyddu pwerau'r Cynulliad mewn ardaloedd difreintiedig neu mewn ardaloedd sy'n datblygu yng Nghymru yn meddwl fel hyn gan eu bod nhw wedi camddehongli'r geiriau *"meysydd sydd wedi'u datganoli'* a'u cymryd i feddwl 'difreintiedig' neu 'ardaloedd sy'n datblygu'.

Y rhai hynny oedd yn meddwl fod y cwestiwn yn ymwneud â chael gwared â'r angen i gael cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer deddfau a wnaethpwyd mewn meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli oedd fwyaf agos at ddealltwriaeth gywir o'r cwestiwn. Roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i fod yn bleidleiswyr hŷn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (35+). Doedd dim gwahaniaeth sylweddol yng nghyfran y siaradwr Saesneg a Chymraeg o fewn y categori hwn. Fe sylweddolon nhw fod y Cynulliad angen cael cymeradwyaeth Senedd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd i ddeddfu ar faterion penodol, a bod y cwestiwn yn gofyn p'un ai y dylid cael gwared â'r angen i gael cymeradwyaeth.

Fodd bynnag, dechreuodd rhai unigolion oedd â dealltwriaeth dda o bwnc y refferendwm cyn cymryd rhan yn yr ymchwil (h.y. oedd yn meddwl ei fod ynghylch cael gwared â'r angen i gael cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer deddfau a wnaethpwyd mewn meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli) amau'r ddealltwriaeth hwn ar ôl darllen y cwestiwn. Mewn achosion fel hyn, doedd y cwestiwn ddim yn cefnogi nac yn atgyfnerthu'r wybodaeth oedd gan yr unigolion hyn cyn yr ymchwil. Mae hyn yn tynnu sylw at addasrwydd y cwestiwn yn ei ffurf gyfredol, ac mae'n dangos nad ymwybyddiaeth wael o ddatganoli ac o bwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r unig reswm pam

fo pobl yn camddehongli'r cwestiwn refferendwm. Cafodd effaith y ddealltwriaeth ar strwythur y cwestiwn, yn ogystal â geiriau ac ymadroddion unigol, effaith fawr hefyd.

A) Strwythur y Cwestiwn

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu y dylid cadw strwythur cyfredol y cwestiwn. O ystyried y bwlch mewn ymwybyddiaeth o ddatganoli ac o bwerau cyfredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, roedd angen cael rhagarweiniad sy'n cefnogi'r cwestiwn refferendwm ei hun (h.y. paragraff tri). Daethpwyd i'r casgliad y dylid cadw'r elfennau canlynol:

- Teitl byr a chryno
- Disgrifiad o'r trefniadau deddfwriaethol cyfredol
- Arwydd o sut fyddai trefniadau deddfwriaethol yn cael eu heffeithio os rhoddwyd pleidlais ydw / nac ydw
- Cwestiwn byr a chlir

Fodd bynnag, daethpwyd o hyd i nifer o broblemau strwythurol, ac mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Hyd cyffredinol y cwestiwn
- Hyd a chymhlethdod y frawddeg
- Gwahaniaeth rhwng senarios y presennol a rhai'r dyfodol

Ar draws yr esiampl, roedd y rhai hynny a gymrodd ran yn credu fod y cwestiwn cyffredinol yn rhy hir. Wrth ei ddarllen, roedd llawer yn sylwi eu bod nhw wedi colli ystyr y cwestiwn a'u bod nhw'n gorfod darllen rhannau unigol sawl gwaith cyn eu bod nhw'n gallu deall yr ystyr. Cafwyd sawl cwyn ynghylch y ffaith fod y cwestiwn yn ailadrodd, a thybiodd pobl a oedd yn bosib cael gwared â'r rhannau oedd yn cael eu hailadrodd. Er enghraifft, roedd yr ail frawddeg yn ail baragraff y fersiwn iaith Saesneg yn rhy hir a'n gymhleth. Roedd nifer y cymalau a'r broses o ailadrodd (plannu brawddeg o fewn brawddeg arall) yn y frawddeg hon yn ei gwneud hi'n eithaf anodd i lawr o bobl i'w ddeall.

Wrth ddarllen y rhagarweiniad, roedd rhai yn ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhwng y trefniadau deddfwriaethol presennol a'r trefniadau posib yn y dyfodol. (h.y. yn dilyn canlyniad y refferendwm). Er bod y mwyafrif yn deall fod dwy frawddeg gyntaf paragraff un yn disgrifio trefniadau presennol, roedd rhai'n credu fod y drydedd frawddeg yn disgrifio trefniant posib yn y dyfodol. Yn debyg, drwy roi gwybodaeth am ganlyniadau Ydw ac Nac ydw gyda'i gilydd ym mharagraff dau, roedd y cwestiwn yn ymddangos i gymhlethu senario yn y dyfodol (y canlyniad Ydw), gyda disgrifiad o'r trefniadau cyfredol (y canlyniad Nac ydw).

Gwnaethpwyd y broses o wahaniaethu rhwng y trefniadau presennol a'r trefniadau posib yn y dyfodol yn anoddach fyth i lawer o ddarllenwyr oedd yn siarad Cymraeg, o ganlyniad i'r ffaith fod y geiriau a ddefnyddiwyd yn nhrydedd frawddeg paragraff un *('Caiff y Cynulliad ennill mwy o bwerau')* yn aml yn anghyfarwydd iddynt.

B) Geiriau & Ymadroddion

Cwestiwn Iaith Saesneg

'Devolved areas'

Yr ymadrodd oedd yn cael ei gamddeall fwyaf yn y cwestiwn iaith Saesneg oedd 'devolved areas'. Gan nad oedd llawer o'r ymatebwyr yn deall y syniad o ddatganoli a heb syniad clir o ystyr 'devolved areas', roeddynt yn aml yn dehongli'r ymadrodd hwn fel ymadrodd oedd yn cyfeirio at ardaloedd daearyddol yng Nghymru oedd naill ai'n ddifreintiedig neu'n datblygu. Arweiniodd hyn i rai ddeall y cwestiwn cyffredinol fel un oedd yn gofyn p'un ai a ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael mwy o bwerau dros yr ardaloedd daearyddol hyn. Cymhlethwyd y camddealltwriaeth hwn drwy'r ffaith fod yr ymadrodd yn cael ei ailadrodd pum gwaith drwy gydol y cwestiwn, oedd yn arwain pobl i gael anhawster mawr i ddeall y cwestiwn heb wybod beth oedd ystyr yr ymadrodd. Cyfaddefodd rhai eu bod nhw wedi anwybyddu'r ymadrodd a cheisio dyfalu ystyr y cwestiwn cyffredinol heb gyfeirio ato.

'If most people vote No, then the present arrangements, which transfer that law-making power bit by bit, with the agreement of Parliament each time, will continue.'

Roedd y frawddeg hon (paragraff dau, brawddeg dau) yn ymddangos yn rhy hir ac yn rhy gymhleth. Roedd llawer yn mynd ar goll wrth ei darllen oherwydd nifer y cymalau ynddi (pump i gyd), a doeddynt ddim yn deall ei hystyr yn llwyr o ganlyniad. Yn ogystal, doedd llawer ddim yn hoffi'r ffordd yr oedd y frawddeg yn ymddangos i newid rhwng tonau ffurfiol ac anffurfiol (er enghraifft, ystyriwyd *'…The present arrangements, which transfer that law-making power…'*, fel iaith ffurfiol iawn, tra roedd yr ymadrodd wedyn, *'bit by bit'*, yn anffurfiol), ac roeddynt yn teimlo fod y cyfosodiad hwn yn gwneud y frawddeg yn anodd ei deall.

'Subject by subject / bit by bit'

Roedd rhai yn ystyried defnyddio *'subject by subject'* (paragraff un, brawddeg tri) a *'bit by bit'* (paragraff dau, brawddeg dau) i ddisgrifio'r broses o drosglwyddo pwerau deddfu o'r Senedd i'r Cynulliad yn gymhleth. Roedd y geiriad tipyn yn wahanol yn eu harwain nhw i amau p'un ai a oedd y ddwy frawddeg yn disgrifio'r un broses neu beidio.

Cwestiwn iaith Gymraeg

'Meysydd sydd wedi'u datganoli' ('Devolved areas')

Roedd '*Datganoli'* yn air anghyfarwydd i lawr o'r rhai hynny a ymatebodd, yn enwedig ymysg y grwpiau mwy ifanc. Rodd y rhai hyn a ymatebodd yn teimlo eu bod nhw'n gallu dod o hyd i ystyr y frawddeg drwy edrych ar y wybodaeth gyd-destunol a ddarparwyd, ond roedd yn amlwg fod y rhai hynny a ymatebodd yn dyfalu yn anghywir weithiau beth oedd ystyr y gair. Roedd y rhan 'meysydd' o'r ymadrodd yn creu problem gan nad oedd yn gyfarwydd. Roedd hyn, gyda'r gair 'datganoli' wedi achosi llawer o'r darllenwyr Cymraeg i ail-ddarllen y darn a'i gymharu gyda'r fersiwn Saesneg i ganfod yr ystyr.

‘Caiff y Cynulliad ennill mwy o bwerau’ (‘The Assembly can gain further powers’)

Doedd ystyr y drydedd frawddeg hon o baragraff un ddim yn glir i’r rhan fwyaf o’r darllenwyr Cymraeg. Roedd y gair ‘caiff’ yn anghyfarwydd (paragraff un, brawddeg tri), ac arweiniodd hyn i rai o’r rhai hynny a ymatebodd i gychwyn darllen y frawddeg fel ‘*fe fydd y Cynulliad yn ennill mwy o bwerau)*, gan gymhlethu’r trefniadau presennol a’r rhai posib ar gyfer y dyfodol.

‘bob yn damaid’ (bit by bit)

Doedd yr ymadrodd hwn ddim yn cael ei ystyried fel iaith gyffredin, a theimlwyd yn gryf y gallai gael ei wneud yn fwy dealladwy i ddarllenwyr Cymraeg.

Geiriau anghyfarwydd: ‘fesul’;’i ddeddfu’ a ‘gwasanaethau cymdeithasol’

Cyflwynodd y geiriau ‘*fesul’, ‘i ddeddfu’ a* ‘*gwasanaethau cymdeithasol*’ broblemau i rai pobl a ymatebodd. Roedd y ffaith nad oeddynt yn gyfarwydd gyda’r geiriau hyn yn golygu fod rhaid iddynt edrych ar y fersiwn Saesneg i ddeall eu hystyr, ac o ganlyniad, roedd hyn yn gwneud iddynt ddarllen y cwestiwn yn llawer llai cyflym.

C) Gosodiad y Cwestiwn

Ni chafwyd unrhyw anawsterau gyda gosodiad y cwestiwn. Roedd pawb o’r farn fod rhannu’r cwestiwn yn deitl, yn rhagarweiniad, yn gwestiwn a’n focsys atebion yn hawdd i’w ddilyn, ac roedd pawb yn meddwl bod rhannu’r dudalen yn fersiynau Cymraeg a Saesneg yn briodol.

Cynhaliwyd dau gyfweliad ymysg pobl sydd â namau gweledol. Roedd gan un o’r rhai hynny a ymatebodd nam gweledol cymedrol, ac er ei fod yn gallu darllen y cwestiwn yn ei fformat cyfredol, dywedodd y byddai wedi bod yn well ganddo ddefnyddio fersiwn print mawr. Roedd yr ymatebwr arall yn ddall a dim yn gallu darllen y cwestiwn o gwbl. Byddai angen cael fersiwn clywedol o’r cwestiwn er mwyn i’r person yma a ymatebodd i bleidleisio yn y refferendwm.

Yn ychwanegol, byddai wedi bod yn well gan y pedwar person a ymatebodd nad oedd yn siarad Saesneg na Chymraeg fel iaith gyntaf pe byddai’r cwestiwn wedi cael ei ddarparu yn eu hiaith gyntaf. Er y gallai’r pedwar ddeall y cwestiwn drwy gyfrwng y Saesneg, roeddynt yn cael trafferth gyda geiriau fel ‘meysydd sydd wedi’u datganoli.’

1.4 Niwtraliaeth y Cwestiwn

Wrth ei ddarllen i gychwyn, ni soniodd llawer o’r rhai hynny a ymatebodd fod y cwestiwn yn eu harwain nhw i roi ateb penodol. Dim ond ar ôl iddynt gael eu hannog i edrych am unrhyw elfennau arweiniol y canfuwyd y rhain. Pan ganfuwyd elfennau arweiniol (yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg), roedd y rhain yn ymddangos i arwain pleidleiswyr i roi Ydw fel ymateb. Ni chanfuwyd unrhyw elfennau oedd yn arwain pleidleiswyr i roi Nac Ydw fel ymateb.

Roedd yr elfennau canlynol yn ymddangos fel rhai oedd yn arwain pobl i roi Ydw fel ymateb:

- Paragraff dau:
  - > Roedd disgrifiad y canlyniad Ydw yn dod yn gyntaf, gan roi mwy o bwyslais ar ganlyniad Ydw nac ar ganlyniad Nac ydw.
  - > Roedd disgrifiad o’r canlyniad Nac ydw yn cael ei guddio rhywfaint yn y paragraff (brawddeg dau)

> Roedd y canlyniad Ydw yn cael ei ddisgrifio mewn ffordd syml ac roedd yn rhwydd i'w ddeall, ond roedd y canlyniad Nac ydw yn cael ei ddisgrifio mewn ffordd gymhleth oedd yn fwy anodd ei ddeall.

> Roedd geiriad y disgrifiad Ydw yn rhoi synnwyr o newid positif (*'...gain powers to make laws...' / '...ennill pwerau i ddeddfu...'),* ond roedd geiriad y disgrifiad Nac ydw yn fwy negyddol a'n rhoi synnwyr o stasis neu o newid araf, cynyddol (*'...bit by bit...' / '...bob yn damaid ... bob tro...'*)

- Paragraff tri:

> Roedd *'Do you agree...' | 'Ydych chi'n cytuno...'* yn cael ei weld fel rhywbeth oedd yn gwthio i bobl ateb Ydw, drwy awgrymu fod yr ateb yn rhannol (h.y. ei fod yn gofyn go iawn *'Do you agree with me...?'*)

Ar y cyfan, roedd yn amlwg fod rhwystrau i ddealltwriaeth (e.e. y cymhlethdod ynghylch *'devolved areas' | 'Meysydd sydd wedi'u datganoli'*) yn fwy o broblem nag unrhyw rai o'r elfennau arweiniol posib a ddisgrifiwyd uchod."

1.5 Cywirdeb yr Ymateb

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gallu pleidleisio yn unol â'u bwriadau [3]. Dywedodd hyd yn oed y rhai hynny nad oedd wedi deall y cwestiwn wrth ei ddarllen i gychwyn, eu bod nhw wedi rhoi'r ymateb y byddant wedi'i roi pe byddent wedi deall y cwestiwn yn llwyr o'r cychwyn. Er bod y rhan fwyaf o bobl wedi gallu pleidleisio yn unol â'u bwriadau, mae'n golygu y byddai llawer wedi cerdded i ffwrdd ar ôl darllen y cwestiwn hwn gyda chanfyddiad anghywir o ystyr y refferendwm ac o'i ganlyniadau posib, os na fyddai hyn wedi cael ei egluro.

Dywedodd rhai pobl a ymatebodd nad oeddynt wedi gallu ateb y cwestiwn yn unol â'u bwriadau. Roedd y rhai hyn a ymatebodd yn credu i gychwyn bod y cwestiwn yn gofyn am fwy o gynnydd ym mhwerau'r Cynulliad nag yr oedd yn gofyn mewn gwirionedd (un' ai annibyniaeth i Gymru neu bwerau codi treth). Nid oeddynt eisiau i bwerau'r Cynulliad gael eu cynyddu i'r graddau hyn, ac roeddynt wedi rhoi 'Nac ydw' fel ateb. Fodd bynnag, pe byddent wedi deall gwir ystyr y cwestiwn a'r cyfyngiadau yn y pwerau yr oedd pobl yn pleidleisio drostynt, dywedont y byddent wedi rhoi 'Ydw' fel ateb. Mae hyn yn dangos y gallai'r cwestiwn achosi pleidleiswyr sydd o blaid dipyn o gynnydd ym mhwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (yn unol â phwnc y refferendwm), ond sy'n credu fod y cwestiwn refferendwm mewn gwirionedd yn gofyn am gynnydd mwy sylweddol mewn pwerau na hyn, i roi ateb sydd ddim yn unol â'u bwriadau.

1.6 Cydymffurfio â'r Canllawiau Asesu Cwestiwn

Darganfuwyd o'r ymchwil, bod y cwestiwn wedi achosi problem i ddefnyddwyr mewn cysylltiad â nifer o'r meini prawf oedd wedi cael eu nodi yng nghanllawiau asesu cwestiwn y Comisiwn. Yn arbennig, nid oedd y rhan fwyaf o'r rhai hynny a ymatebodd yn ystyried fod y cwestiwn yn rhwydd i'w ddeall, a theimlwyd fod rhai geiriau ac ymadroddion allweddol yn amwys.

---

[3] Y rheswm am hyn oedd oherwydd bod gan lawer farnau clir ar p'un ai y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael rhagor o bwerau neu ddim ac y byddent wedi pleidleisio yn yr un ffordd (p'un ai Ydw neu Nac ydw), pe byddai'r cwestiwn wedi bod ynghylch annibynniaeth, codi pwerau treth, meysydd newydd sydd wedi'u datganoli neu gael gwared â'r angen i gael cymeradwyaeth y Senedd mewn meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli.

1.7 Newidiadau a Gynigir

O gymryd pob agwedd o'r drafodaeth uchod i ystyriaeth, mae'r ymchwil yn awgrymu y byddai'r newidiadau canlynol yn gwella dealltwriaeth o'r cwestiwn refferendwm:

- **Strwythur y Cwestiwn**
  - > Gostwng hyd cyffredinol y cwestiwn (nifer y geiriau) lle bo'n bosib
  - > Gostwng y broses o ailadrodd a phan mae pethau'n cael eu hailadrodd, ceisio osgoi anghysondebau o ran yr iaith a ddefnyddir.
    - Yn y fersiwn Saesneg, ceisio osgoi ailadrodd yn anghyson rhwng paragraff un, brawddeg tri (*'subject by subject'*) a pharagraff dau, brawddeg dau, (*'bit by bit'*)
    - Yn y fersiwn Cymraeg, ceisio peidio ag ailadrodd gymaint rhwng diwedd paragraff un, brawddeg un a chychwyn brawddeg dau (lle mae *'meysydd sydd wedi'u datganoli'* yn cael ei ailadrodd gair am air ar ddwy linell wahanol)
  - > Gostwng hyd a chymhlethdod y frawddeg lle bo'n bosib (yn enwedig ym mharagraff dau, brawddeg dau)
  - > Gwahanu trefniadau deddfwriaethol cyfredol oddi wrth drefniadau posib yn y dyfodol yn glir
  - > Gwahanu esboniadau o ganlyniadau Ydw ac Nac ydw (paragraff dau) yn glir
  - > Nodi'n glir nad yw'r cwestiwn refferendwm yn gofyn am annibyniaeth i Gymru neu am gynnydd ym mhwerau codi treth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- **Geiriau & ymadroddion unigol**
  - > Cwestiwn iaith Saesneg
    - Egluro ystyr *'devolved areas'* yn glir (efallai pwysleisio esiamplau o feysydd sydd wedi'u datganoli), neu gael gwared â'r frawddeg hon.
    - Symleiddio paragraff dau, brawddeg dau (disgrifio'r canlyniad Nac ydw) i wella dealltwriaeth.
    - Harmoneiddio iaith ffurfiol drwy gydol y cwestiwn, a cheisio osgoi iaith anffurfiol iawn (e.e. *'bit by bit'* ym mharagraff dau, brawddeg dau)
  - > Cwestiwn iaith Gymraeg
    - Egluro ystyr *'meysydd wedi'u datganoli'*, yn glir, ac ystyried geiriau eraill ar gyfer y gair '*meysydd'*
    - Ail-eirio paragraff un, brawddeg tri i egluro ei fod yn cyfeirio at bwerau cyfredol. Edrych am ffordd arall o agor y frawddeg gyda'r gair '*caiff'*
    - Lle bo'n bosib, defnyddio geiriau mwy syml, sy'n cael eu defnyddio'n fwy aml, yn lle '*i ddeddfu'*, '*fesul'*, '*bob yn damaid'* a '*gwasanaethau cymdeithasol'*

Yn ychwanegol, byddai'r newidiadau canlynol yn gwella **amhleidioldeb** y cwestiwn:

- Gwahanu disgrifiadau o'r canlyniadau Ydw ac Nac Ydw yn glir, fel nad yw disgrifiad Nac ydw yn cael ei guddio mewn unrhyw ffordd

- Sicrhau bod y canlyniadau Ydw ac Nac ydw yn cael eu disgrifio'r un mor glir â'i gilydd, gyda'r un don emosiynol (yn bennaf, drwy symleiddio paragraff dau, brawddeg dau)
- Ailystyried defnyddio'r frawddeg *'Do you agree...' | 'Ydych chi'n cytuno…'* yn y cwestiwn ei hun (paragraff tri), a allai ymddangos yn arweiniol; Roedd *'Should the Assembly have powers to pass laws on all subjects in the devolved areas…?' | 'Dylai'r Cynulliad gael pwerau i ddeddfu ar yr holl bynciau yn y meysydd sydd wedi'u datganoli…?'* yn cael ei weld yn fwy niwtral.

Wrth weithredu'r rhain, neu unrhyw newidiadau eraill, dylai'r Comisiwn Etholiadol ystyried y lefelau isel o ymwybyddiaeth o ddatganoli ac o bwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ganfuwyd yn yr ymchwil hwn. O gymryd y rhain i ystyriaeth, dylai unrhyw ddiwygiadau i eiriad y cwestiwn gymryd y pwyntiau canlynol i ystyriaeth;

- **Mae'n bwysig iawn nad yw'r cwestiwn yn drysu pleidleiswyr.** Doedd nifer o'r rhai hynny a ymatebodd ddim yn gallu dweud beth oedd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu sut fyddai'r refferendwm hwn yn effeithio arnynt. O ystyried hyn, yn eu barn nhw, mae cael cwestiwn sy'n egluro'r dewis sydd gan bleidleiswyr mewn ffordd syml ac sy'n lleihau unrhyw ddryswch yn bwysig iawn.
- **Mae'n rhaid i eiriad y cwestiwn fod yn glir a'n ddealladwy.** Roedd llawer o'r rhai hynny a ymatebodd yn cael eu drysu'n rhwydd gan eiriau nad oeddynt yn gallu eu deall fel 'datganoli' a 'meysydd sydd wedi'u datganoli'. Byddai cadw iaith y cwestiwn yn syml ac osgoi, lleihau neu egluro unrhyw eiriau ac ymadroddion anodd yn cynorthwyo i osgoi hyn.
- **Mae angen cael rhywfaint o eglurhad o'r trefniadau deddfwriaethol cyfredol.** Gan nad oedd y rhai hynny a ymatebodd yn ymwybodol o bwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru na'r berthynas ddeddfwriaethol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig, dylid nodi hyn yn glir yn y cwestiwn refferendwm. Bydd pleidleiswyr sydd ddim yn gyfarwydd gyda'r trefniadau presennol yn cael trafferth i ddeall cwestiwn sydd ddim yn cael ei egluro iddynt yn llwyr.
- **Mae angen cael eglurhad o'r canlyniadau Ydw ac Nac Ydw.** Mae angen cael eglurhad syml a chydlynol o'r canlyniadau ydw ac nac ydw i gynorthwyo pleidleiswyr i ddeall effaith eu hymateb. Dylai hyn gynorthwyo i gael gwared â dryswch ynghylch pwnc y refferendwm (e.e. mae rhai o'r rhai hynny a ymatebodd yn credu mai annibyniaeth neu bwerau codi treth yw pwnc y refferendwm).
- **Pwysleisio beth yw ystyr y refferendwm.** Roedd rhai o'r rhai hynny a ymatebodd yn wirioneddol gredu mai ynghylch annibyniaeth i Gymru neu ynghylch rhoi pwerau codi treth i'r Cynulliad oedd y cwestiwn refferendwm**.** Er mwyn delio â hyn, gallai fod yn werth egluro'n glir nad dyma'r achos, ac mai pwrpas y refferendwm yw ymestyn pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn y meysydd sydd wedi'u datganoli.